

Rhagarweiniad

1. Darpariaethau Cyffredinol

1.1 Bydd gan unrhyw Aelod neu Aelod Cysylltiedig sy'n anfodlon â'u hymwneud ag Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAb) neu â'u hymwneud â chyrrff cysylltiedig (e.e. pryderon parthed clybiau chwaraeon, cymdeithasau a chyfleoedd gwirfoddoli) yr hawl i gwyno.

1.2 Dylid delio â phob cwyn yn brydlon a theg, fel y disgrifir yn y ddogfen hon.

1.3 Mae gan bob achwynydd yr hawl i apelio os yw'n anfodlon â'r ffordd mae wedi cael ei drin.

2. Cam 1: Cwyn Anffurfiol

2.1 Yn y rhan fwyaf o achosion, gellir datrys cwynion drwy drafod y mater yn anffurfiol.

2.2 Dylai Aelod (cyfeirir ato hefyd fel 'yr achwynydd') ddod â'r mater i sylw Swyddog Ymddiriedolwr (Swyddog Llawn-amser) sy'n berthnasol i faes y gŵyn, a fydd yn ceisio datrys y mater drwy drafodaeth anffurfiol.

2.3 Mae'r swyddogion sy'n derbyn y cwynion yn gyfrifol am fynd i'r afael â nhw'n brydlon ac yn deg. Bydd y Swyddog yn rhoi gwybod i'r myfyriwr o fewn 5 diwrnod y brifysgol ar ôl derbyn y gŵyn ynglŷn â pha gamau (os oes unrhyw rai) a gaiff eu cymryd i fynd i'r afael â'r cwyn a'r amserlen ar gyfer y camau hynny.

2.4 Os na ddatryswyd y gŵyn drwy'r camau uchod, gall yr achwynydd ddwyn y mater i sylw'r Llywydd, a fydd yn gwneud ei ymchwiliad ei hun a dod i ddyfarniad ynghylch y gŵyn cyn rhoi gwybod i'r achwynydd fel yr uchod. Os yw'r gŵyn yn erbyn aelod staff UMAber, dylai'r Llywydd drosglwyddo'r mater i'r Prif Weithredwr yn unol â Phrotocol Swyddogion/Staff. Yn yr achos hwn y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r achwynydd am y canlyniad.

2.5 Gall Swyddog Ymddiriedolwyr wneud y canlynol ar y cam hwn:

- a. Rhybuddio'r Diffynnydd
- b. Gwrthod yr achos ar sail tystiolaeth
- c. Cyfeirio'r achos at Fwrdd yr Ymddiriedolwyr

2.6 Os yw'r gŵyn yn erbyn y Llywydd, gall Aelod gyflwyno eu cwyn i'r Prif Weithredwr, a fydd yn cyfeirio'r cwyn at Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Bydd y Prif Weithredwr wedyn yn gyfrifol am roi gwybod i'r myfyriwr am ganlyniad y gŵyn.

2.7 Fel arfer, ni chedwir cofnod ysgrifenedig o gŵyn anffurfiol heblaw am nodiadau personol y derbynydd.

3. Cam 2: Cwyn Ffurfiol

3.1 Os nad yw'r achwynydd yn fodlon â chanlyniad y gŵyn dan gam un, gallant wneud cwyn ffurfiol mewn ysgrifen i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

- a. Os yw'r gŵyn yn erbyn Aelod neu aelod staff UMAber, dylid cyfeirio'r cwyn at y Llywydd. Wedyn, bydd yn ymchwilio i'r cwyn ac, os yw'n berthnasol, yn galw cyfarfod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- b. Os yw'r gŵyn yn erbyn y Llywydd, dylid cyfeirio'r cwyn at y Prif Weithredwr. Wedyn, bydd yn galw cyfarfod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

3.2 Os gwneir cwyn ffurfiol, rhoddir i'r diffynnydd:

- a. O leiaf 7 diwrnod prifysgol o rybudd fod y cyfarfod i'w gynnal.
- b. Cyfle i fynychu'r cyfarfod yn bersonol neu ddarparu cyflwyniad ysgrifenedig.
- c. Cyfle i fynd ag aelod arall gyda hwy, pe dymunant wneud hynny.

3.3 Bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cynnwys 5 ymddiriedolwr, gan gynnwys:

- a. 3 neu 4 Swyddog Ymddiriedolwr (yn ddibynnol ar gymalau 96-98 o'r cyfansoddiad - gwrthdaro o ran buddiannau)
 - b. 1 neu 2 Myfyriwr Ymddiriedolwr (yn ddibynnol ar gymalau 96-98 o'r cyfansoddiad - gwrthdaro o ran buddiannau)
 - c. Bydd y Prif Weithredwr yn bresennol heb hawliau pleidleisio i gymryd cofnodion.
- 3.3 Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr fydd y Llywydd, neu os nad yw ar gael, bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ethol cadeirydd ar ddechrau'r cyfarfod.
- 3.4 Bydd yr achwynydd yn derbyn ymateb ysgrifenedig llawn sy'n cynnwys manylion o natur y gŵyn, canfyddiadau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r pwyntiau a drafodwyd yn y cyfarfod. Dylai'r achwynydd dderbyn hynny o fewn 4 wythnos prifysgol ar ôl cyflwyno cwyn ffurfiol.
- 3.5 Bydd y cyfarfod yn penderfynu:
- a. Gwrthod y gŵyn.
 - b. Cadarnhau'r cwyn a naill ai:
 - i. Gofyn i gael costau wedi eu talu i wneud iawn am unrhyw golled ariannol a wnaed gan UMAber. Caiff yr Aelod ei ddiarddel o'r Undeb hyd nes y caiff costau eu talu.
 - ii. Diarddel yr Aelod yn syth, am gyfnod rhwng un wythnos ac un flwyddyn.
- 3.6 Caiff y diffynnydd ei hysbysu o benderfyniadau'r Ymddiriedolwyr.

4. Apeliadau

- 4.1 Mae'r adran hon yn cynnwys apeliadau yn erbyn diarddeliad fel Aelod o UMAber a hefyd yn erbyn diswyddiad ymddiriedolwr allanol (yn unol â chymalau 64-65 o'r cyfansoddiad).
- 4.2 Os yw'r achwynydd yn anfodlon â phenderfyniad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, gall gyflwyno apêl i Banel Apeliadau. Dylai'r achwynydd nodi'r sail ar gyfer yr apêl, a ddylai ateb un neu fwy o'r meini prawf canlynol:
- a. Roedd yno anghysondebau gweithdrefnol wrth ymchwilio i'r cwyn.
 - b. Gellir cyflwyno tystiolaeth newydd na chyflwynwyd, neu nad ellid disgwyl yn rhesymol iddi fod ar gael i'r ymchwiliad.
 - c. Roedd canfyddiad yr ymchwiliad yn amhriodol.
- 4.3 Mae gan yr Apelydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr cyn belled â'i fod wedi cyflwyno ei apêl i'r Prif Weithredwr o fewn 14 diwrnod prifysgol ar ôl derbyn yr hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad yr ymddiriedolwyr.
- 4.4 Os cyflwynir apêl mewn pryd, ni roddir penderfyniad yr Ymddiriedolwyr ar waith nes y gwneir dyfarniad gan y Panel Apeliadau.

Hysbysiad o wrandawriad a chyfnewid gwybodaeth

- 4.5 Rhoddir o leiaf 7 diwrnod prifysgol o rybudd i'r achwynydd sy'n cyflwyno'r apêl (Apelydd) ynglŷn â dyddiad, amser a lleoliad gwrandawriad yr apêl.
- 4.6 O leiaf 4 diwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad, bydd yr Apelydd yn:
- a. Cadarnhau a fydd yn mynychu'r cyfarfod, ac os yw, darparu enw unrhyw berson a fydd yn dod gyda nhw.
 - b. Cyflwyno unrhyw dystiolaeth newydd mae'n dymuno dibynnu arni
- 4.7 O leiaf 2 ddiwrnod cyn y gwrandawriad, bydd UMAber yn darparu unrhyw dystiolaeth newydd maent yn bwriadu dibynnu arni.
- 4.8 Ni chaiff unrhyw un, heb gydsyniad y llall, ddibynnu ar dystiolaeth na ddefnyddiwyd yn y penderfyniad gwreiddiol ym mhwyntiau 4.3 ac 4.4.

Aelodaeth y Panel Apeliadau

- 4.9 Aelodaeth y Panel Apeliadau fydd:

- a. 2 aelod o UMAber (na fyddant, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, yn Ymddiriedolwyr o UMPA), a benodir gan y Prif Weithredwr
 - b. Enwebai'r Brifysgol
 - c. Prif Weithredwr o Undeb arall, a benodir gan Gyfarwyddwr UCM Cymru
 - d. Swyddog o Undeb arall, a benodir gan Gyfarwyddwr UCM Cymru
- 4.10 Bydd pob aelod o'r Panel Apeliadau yn annibynnol, ac ni fyddant wedi cael unrhyw ymgysylltiad â'r mater sydd dan apêl. Ni ddylai eu perthynas â'r sawl sy'n Apelio arwain at unrhyw wrthdaro o ran buddiannau.
- 4.11 Bydd y Panel Apêl yn ethol un o'u haelodau i lywyddu fel Cadeirydd.
- 4.12 Bydd gan yr Apelydd hawl i ddod â chyd aelod gyda hwy, neu mewn achos diarddeliad fel ymddiriedolwr, un person arall o'u dewis hwy.
- 4.13 Bydd y Llywydd yn gweithredu ar ran UMAber fel y sawl sy'n ymateb i'r apêl.

Y Weithdrefn ar gyfer Panel Apeliadau

- 4.14 Bydd y panel apeliadau yn ystyried y ddogfen, datganiadau a thystiolaeth arall a gyflwynwyd i gyfarfod gwreiddiol yr Ymddiriedolwyr. Bydd hefyd yn ystyried unrhyw ddogfennau eraill a ddarparwyd yn unol â phwyntiau 4.6 a 4.7.
- 4.15 Ni chaiff y Panel Apeliadau groesholi na chyfweld ag unrhyw dystion.
- 4.16 Bydd y drefn ar gyfer gweithgareddau'r Gwrandawriad Apêl fel a ganlyn:
- a. Cyflwyniadau gan neu ar ran yr Apelydd
 - b. Cyflwyniadau gan neu ar ran y Bwrdd Ymddiriedolwyr gwreiddiol
 - c. Ystyriaeth o'r dystiolaeth gan y Panel Apeliadau
 - d. Cyflwyniadau i gloi gan neu ar ran y sawl sy'n Apelio
 - e. Cyflwyniadau i gloi gan neu ar ran y Bwrdd Ymddiriedolwyr gwreiddiol
- 4.17 Os yw'r Apelydd, neu eu cynrychiolydd, yn absennol o'r Gwrandawriad, yna gall y Panel Apeliadau fwrw ymlaen i ystyried y mater yn absenoldeb y sawl sy'n cyflwyno'r Apêl, oni fydd y Panel yn fodlon â rhesymau'r Apelydd dros beidio â bod yn bresennol; mewn achos o'r fath, gellir galw gwrandawriad diweddarach.
- 4.18 Llwybrau y gall y Panel Apeliadau eu dilyn:
- a. Cadarnhau'r apêl
 - b. Gwrthod yr apêl
- 4.19 O fewn 7 diwrnod prifysgol o'r penderfyniad, bydd y Prif Weithredwr yn hysbysu'r Apelydd mewn ysgrifen o benderfyniad y Panel Apeliadau.
- 4.20 Mae Cam 4.19 yn cynrychioli diwedd Strwythur Cwynion a Disgyblaeth UMAber.